Anne Frank: 1929–1945

Dyddiaduron o uffern!

Dyfalbarhad / dewrder / goddefgarwch

Am dros ddwy flynedd, rhwng Mehefin 1942 ac Awst 1944, bu Anne Frank yn cadw dyddiadur. Ganed Anne, oedd yn ferch i Iddewon, yn Frankfurt am Main, yn yr Almaen. Ym 1933 daeth plaid newydd i rym, y Sosialwyr Cenedlaethol o dan arweiniad Adolf Hitler. Un o nodweddion y blaid hon oedd eu bod yn wrth-Iddewig. Penderfynodd Edith ac Otto Frank nad oedd dyfodol iddyn nhw yn yr Almaen ac felly rhaid oedd ffoi i Amsterdam, yn yr Iseldiroedd.

Ym 1940, pan oedd Anne yn 11 oed, ymosododd yr Almaen ar yr Iseldiroedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bellach roedd rhaid i'r teulu chwilio am guddfan neu gael eu dienyddio. Gyda theulu Van Pels a Fritz Pfeffer cuddiodd teulu'r Franks yn rhandy'r tŷ oedd yn perthyn i Otto. Yno, dan amodau difrifol, ysgrifennodd Anne ei dyddiadur. Dyma rannau o'r dyddiaduron.

Dydd Sul, Medi 27, 1942.

F'annwyl Kitty,

Bu Mam a finnau yn trafod heddiw. Dechreuais grio. Mae Dad yn annwyl efo mi bob amser; mae'n fy neall. Ar brydiau fel hyn fedra i ddim dioddef Mam! Rydw i yn dipyn o ddirgelwch iddi ...

Dydd Gwener, Ebrill 2, 1943.

F'annwyl Kitty,

Aros yn fy ngwely i ddisgwyl i Dad ddweud fy mhader efo fi. Daeth Mam i mewn i'r ystafell a dweud nad oedd Dad yn barod a gofyn gâi hi ddweud y pader efo mi. 'Na' oedd yr ateb ...

Dydd Mawrth, Ebrill 27, 1943.

F'annwyl Kitty,

Mae pawb yn y tŷ yng ngyddfau'i gilydd. Mam a fi, Mr Van Daan a Dad, Mam a Mrs Van Daan. Mae hi'n annymunol iawn yma. Fel arfer mewn helyntion fel hyn mae methiannau Anne yn dod yn amlwg iawn.

Dydd Llun, Rhagfyr 27, 1943.

F'annwyl Kitty,

Nos Wener (noswyl Nadolig) mi ges i anrheg Nadolig am y tro cyntaf yn fy mywyd. Roedd Miep wedi pobi teisen Nadolig flasus efo "Heddwch 1944" wedi ei ysgrifennu arni. Roedd popeth wedi ei lapio'n daclus a lluniau wedi eu glynu wrth bob parsel. Aeth y gwyliau heibio'n gyflym ...

Dydd Sadwrn, Mawrth 25, 1944.

F'annwyl Kitty,

...Rydw i wedi newid yn llwyr. Pob dim o 'nghwmpas i yn wahanol. Mae fy marn i a'm syniadau i gyd yn wahanol. Mae fy holl agwedd i yn wahanol. Does yna ddim byd yr un fath. Does yna ddim byd yn fewnol nac yn allanol yr un fath... ond mi rydw i wedi newid er gwell... Does gen i fawr o arian na dim byd bydol. Dydw i ddim yn dlws, yn ddeallus nac yn alluog ond mi rydw i yn hapus...Ces fy ngeni'n hapus, mi rydw i yn hoff iawn o bobl ac mi hoffwn i weld pawb arall yn hapus.

Dydd Gwener, Gorffennaf 21, 1944.

F'annwyl Kitty,

Mae pethau'n gwella! Fe geisiwyd lladd Hitler gan gadfridog o Almaenwr o bawb. Mae'r Führer yn ffodus iawn o fod wedi ei arbed. Cafodd rhai o'r swyddogion oedd yn ei ymyl eu lladd. Dyma'r prawf gorau fod llawer iawn o swyddogion wedi cael digon ar Hitler a'i ryfel... Rhywbryd tua hanner awr wedi deg y bore ar Awst 4, 1944, stopiodd car tu allan i'r tŷ. Arestiwyd yr wyth oedd yn cuddio yn y tŷ. Cymerwyd Anne i garchar Westerbrook am gyfnod ac yna i wersyll Bergen-Belsen. Bu farw rywbryd rhwng canol Chwefror a Mawrth 1945. Mae'n bur debyg bod ei chorff wedi ei daflu i feddau torfol yn Bergen-Belsen.

"Do, carodd Duw y byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."

Ioan 3:16

O Dduw,
mae'n anodd cyd-fyw,
fi a'm rhieni
fi a'm chwaer
fi a'm brawd
fi a Nain a Taid
fi a phawb arall
fi a fi fy hun, weithiau.
Os gweli'n dda,
wnei di fy helpu.
Amen.

Rhowch eich hun yn esgidiau Anne.
Rhestrwch yr anawsterau o gyd-fyw dan amodau caeth.
Pa mor hawdd fyddai goresgyn yr anawsterau hyn?